**Mark Drakeford AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**
**Cabinet Secretary for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Simon Thomas AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd

9 Rhagfyr 2016

Annwyl Simon,

Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor am ddau newid technegol y byddaf yn eu gwneud i Gynnig y Gyllideb Flynyddol sydd i'w osod ar 20 Rhagfyr.

Yn gyntaf, caiff gwerth amcangyfrifedig Cyfraniadau Yswiriant Gwladol sy'n dod i law Gweinidogion Cymru i ariannu gwasanaethau'r GIG yng Nghymru yn unol â Deddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992, ei newid o Atodlen 2 (adnoddau cronnus) y cwmpas Iechyd, Llesiant a Chwaraeon i Atodlen 1 (adnoddau y mae eu hangen). Caiff y derbyniadau hyn eu hystyried fel 'ariannu' yn hytrach nag 'incwm' a byddant yn cydymffurfio â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth. Gwerth amcangyfrifedig y cyfraniadau Yswiriant Gwladol a gynhwysir yng nghynigion y gyllideb ddrafft oedd £1.140bn.

Yn ail, mewn ymateb i argymhelliad gan ymchwiliad y cyn Bwyllgor Cyllid i Arferion Gorau ym maes Prosesau Cyllidebol, cynhaliwyd ymarfer i alinio ffin cyllideb a chyfrifyddu Llywodraeth Cymru â'r ffin a ddefnyddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi er mwyn rheoli gwariant cyhoeddus.

Mae'r gwaith hwn yn cael ei gyflawni gan ddefnyddio dull gweithredu graddedig. Gosodwyd Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2016 ar 18 Tachwedd gan ddod â'r cam cyntaf i ben. Caiff yr adnoddau y disgwylir iddynt gael eu defnyddio gan y cyrff a ddynodir yn y Gorchymyn eu cynnwys yng nghynnig y gyllideb flynyddol ar gyfer 2017-18 (yn hytrach na'r cyllid arian parod a ddarperir i'r cyrff hynny). Effaith y newid hwn fydd cynnydd i ofyniad adnoddau Llywodraeth Cymru o tua £256 miliwn yn seiliedig ar gynigion y gyllideb ddrafft. Mae hyn yn adlewyrchu'r adnoddau anariannol e.e., dibrisiant ac amhariadau'r cyrff dynodedig.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ni fydd unrhyw effaith ar lefel gyffredinol adnoddau Llywodraeth Cymru o ganlyniad i'r newidiadau hyn a fydd yn parhau i gael eu cyflwyno, yn unol â'r arfer, yn nhablau Camau Gweithredu'r Gyllideb.

Yn gywir,

Mark.

**Mark Drakeford AM/AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government